

# Camau case study

## Entry part 1

## Astudiaeth achos Camau

## Mynediad 1

**Amanda Morris-Rees**

# Amanda's Welsh language experience

## Profiad iaith Gymraeg Amanda

Amanda is a registered childminder based in Pembrokeshire. She has been working as a childminder for 34 years and currently cares for 11 children ranging from 1 to 11 years.

The language spoken at the setting is predominantly English, however Amanda has been working very hard in the last year to introduce more Welsh language to the children, with her long term goal of providing a bilingual service.

As a result of singing up to the Bronze [Cwlwm Welsh Promise](#), Amanda realised that completing the [Camau training](#) was part of the requirements of the journey. Amanda has previously studied Welsh at school and other training however it wasn't until she accessed the Camau training, she realised how much Welsh vocabulary she already knew which then gave her the confidence to use her vocabulary within the setting, and to challenge herself further by introducing the newly learnt vocabulary on a daily basis with the children in her care.

Mae Amanda yn warchodwr plant cofrestredig yn Sir Benfro. Mae hi wedi bod yn gweithio fel gwarchodwr plant ers 34 mlynedd ac ar hyn o bryd mae'n gofalu am 11 o blant yn amrywio o 1 i 11 oed.

Saesneg yw iaith y lleoliad yn bennaf, ond mae Amanda wedi bod yn gweithio'n galed iawn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i gyflwyno mwy o Gymraeg i'r plant, gyda nod hirdymor o allu darparu gwasanaeth dwyieithog.

O ganlyniad i gofrestru ar gyfer [Addewid Cymraeg Cwlwm](#) Efydd, sylweddolodd Amanda fod cwblhau [hyfforddiant Camau](#) yn rhan o ofynion y daith. Mae Amanda wedi astudio'r Gymraeg yn yr ysgol a hyfforddiant arall o'r blaen ond nid tan iddi gael mynediad at hyfforddiant Camau y sylweddolodd faint o eirfa Gymraeg yr oedd hi'n ei gwybod yn barod a roddodd yr hyder iddi ddefnyddio ei geirfa o fewn y lleoliad ac i herio ei hun ymhellach drwy gyflwyno'r eirfa newydd ei dysgu yn ddyddiol gyda'r plant yn ei gofal.

A fellow childminder that Amanda is often in contact with had also registered for Camau Mynediad 1, and Amanda found that she was able to support her as there was a lot that she already knew, which again strengthened her confidence and encouraged her to use it more frequently. This also helped Amanda to share ideas and practice with another Welsh learner who was on a similar level that again encouraged the progression and frequency of use.

Amanda found that printing some key words and phrases was a visual aid to prompting her as well as the children in her care to use the Welsh equivalent. Amanda found that she would say things in Welsh and English and that in time children would understand when she would say the Welsh word and no longer required supporting the learning by including the English word. Amanda has shared with PACEY Cymru some images of her setting where she has displayed the useful words and sentences printed and laminated on display that Amanda and the children use throughout the day to support the use of Welsh during daily activities and routines.



Roedd cyd-warchodwr plant y mae Amanda mewn cysylltiad â hi yn aml hefyd wedi cofrestru ar gyfer Camau Mynediad 1, a chanfu Amanda ei bod yn gallu ei chefnogi gan fod llawer yr oedd eisoes yn ei wybod, a oedd unwaith eto yn cryfhau ei hyder ac yn ei hannog i'w ddefnyddio'n fwy yn aml. Roedd hyn hefyd yn helpu Amanda i rannu syniadau ac ymarfer gyda dysgwr Cymraeg arall a oedd ar lefel debyg a oedd unwaith eto yn annog dilyniant ac amllder defnydd.

Canfu Amanda fod argraffu rhai geiriau ac ymadroddion allweddol yn gymorth gweledol i'w hysgogi hi yn ogystal â'r plant yn ei gofal i ddefnyddio'r Gymraeg cyfatebol. Canfu Amanda y byddai'n dweud pethau yn Gymraeg a Saesneg ac ymhen amser y byddai plant yn deall pan fyddai'n dweud y gair Cymraeg ac nad oedd angen iddi bellach gefnogi'r dysgu trwy gynnwys y gair Saesneg. Mae Amanda wedi rhannu rhai lluniau o'i lleoliad gyda PACEY Cymru lle mae hi wedi arddangos y geiriau a'r brawddegau defnyddiol sydd wedi'u hargraffu a'u lamineiddio y mae Amanda a'r plant yn eu defnyddio drwy gydol y dydd i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn ystod gweithgareddau ac arferion dyddiol.

# Training influencing practice

## Hyfforddiant yn dylanwadu ar ymarfer

Throughout her Camau Mynediad 1 journey, Amanda has accessed a variety of Welsh language resources to support the use of Welsh within the setting. Some of these include [PACEY Cymru's Welsh Culture Information pack](#) and [audio resources](#) relating to a variety of themes. To recognise Amanda's commitment to the development of her Welsh language skills and to introducing more Welsh culture within her provision, PACEY Cymru sent a Welsh book pack ranging on topics of diversity, transition to school and toilet training all of which would support an extend the learning experiences of the children in Amanda's care. Here's what Amanda had to say on receiving the PACEY Cymru Welsh book pack:

“*The pack is brilliant! One of the older children loves to read and in particular to read in Welsh to the younger children, and I have noticed that these opportunities have given her confidence in her reading skills, and it's also supported my use of Welsh with the children in my care.*”



Drwy gydol ei thaith Camau Mynediad 1, mae Amanda wedi defnyddio amrywiaeth o adnoddau Cymraeg i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y lleoliad. Mae rhai o'r rhain yn cynnwys [pecyn Gwybodaeth Diwylliant Cymreig PACEY Cymru](#) ac [adnoddau sain](#) yn ymwneud ag amrywiaeth o themâu. I gydnabod ymrwymiad Amanda i ddatblygu ei sgiliau Cymraeg ac i gyflwyno mwy o ddiwylliant Cymreig o fewn ei darpariaeth, anfonodd PACEY Cymru becyn llyfrau Cymraeg yn ymwneud ag amrywiaeth, pontio i'r ysgol a hyfforddiant toiled a fyddai'n cefnogi ehangu profiadau dysgu y plant sydd yng ngofal Amanda. Dyma beth oedd gan Amanda i'w ddweud ar dderbyn pecyn llyfrau Cymraeg PACEY Cymru:

“*Mae'r pecyn yn wych! Mae un o'r plant hyn wrth ei bodd yn darllen ac yn arbennig yn darllen yn Gymraeg i'r plant iau, ac rwyf wedi sylwi bod y cyfleoedd hyn wedi rhoi hyder iddi yn ei sgiliau darllen, ac mae hefyd wedi cefnogi fy nefnydd o'r Gymraeg gyda'r plant yn fy ngofal.*”

## Planning...

Amanda explained that by accessing the Camau training this has encouraged her to plan for more playful Welsh language development experiences and opportunities within her setting. "I'm always trying and think about ways to incorporate Welsh within every activity we do. When we play bingo, we now play this in Welsh alone." Amanda and the children have also been creating their own board games, to play in the setting. The rainbow game is one of the children's favourites. By following the children's interest this has enabled Amanda to offer a holistic approach to the children's development. An original version of the game is kept at the setting and each child has been able to create their own version of the game to take home which has supported their well-being and sense of belonging not forgetting the child's opportunity to continue and extend their linguistic skills away from the setting, and at home with their families/carers. From discussions with the children Amanda has also been able to leave a copy of the game at a local café which they visit, so that they can use it when they visit, which shows that the language can be used outside of the setting and that it is recognised within the children's community, which links to the children's sense of pride, well-being and belonging. Amanda is keen to make learning the Welsh language and culture fun through offering fun activities that are child friendly, and she hopes that "it will get children thinking in Welsh as equal as English and that the children feel that they naturally have two languages as they grow".

## Cynllunio...

Esboniodd Amanda fod cael mynediad at hyfforddiant Camau wedi ei hannog i gynllunio ar gyfer profiadau a chyfleoedd datblygu Cymraeg mwy chwareus yn ei lleoliad. Dwi wastad yn ceisio meddwl am ffyrdd o ymgorffori'r Gymraeg o fewn pob gweithgaredd a wnawn. Pan rydyn ni'n chwarae bingo, rydyn ni nawr yn chwarae yn Gymraeg yn unig. Mae Amanda a'r plant hefyd wedi bod yn creu eu gemau bwrdd eu hunain, i'w chwarae yn y lleoliad. Gêm yr enfys yw un o ffefrynnau'r plant. Trwy ddilyn diddordeb y plant mae hyn wedi galluogi Amanda i gynnig agwedd gyfannol at ddatblygiad y plant. Cedwir fersiwn wreiddiol o'r gêm yn y lleoliad ac mae pob plentyn wedi gallu creu fersiwn eu hunain o'r gêm i fynd adref gyda nhw sydd wedi cefnogi eu lles a'u hymdeimlad o berthyn heb anghofio cyfle'r plentyn i barhau ac ymestyn eu sgiliau iaith y tu allan i'r lleoliad, a gartref gyda'u teuluoedd/gofalwyr.



O drafodaethau gyda'r plant mae Amanda hefyd wedi gallu gadael copi o'r gêm mewn caffi lleol y maent yn ymweld ag ef, er mwyn iddynt allu ei ddefnyddio tra yno, sy'n dangos y gellir defnyddio'r iaith y tu allan i'r lleoliad a'i bod yn cael ei chydabod o fewn cymuned y plant, sy'n cysylltu ag ymdeimlad o falchder, lles a pherthyn y plant. Mae Amanda yn awyddus i wneud dysgu Cymraeg a chyflwyno diwylliant Cymreig yn hwyl trwy weithgareddau hwyliog sy'n addas i blant, yn y gobaith 'y bydd yn cael plant i feddwl yn Gymraeg yr un mor gyfartal â'r Saesneg a bod y plant yn teimlo bod ganddynt ddwy iaith yn naturiol wrth iddynt dyfu'.



# Thinking about accessing the Camau training? Here's what Amanda has to suggest

## Meddwl am cyrchu hyfforddiant Camau? Dyma beth sydd gan Amanda i'w awgrymu

“  
I would say go for it! You can do it at your own pace, in your own home where there is no pressure! Once you get into the swing of it, you'll automatically start to use the Welsh [vocabulary and phrases] you've learnt. PACEY Cymru's support has been brilliant, and there's always somebody there at the end of the phone to answer any questions.

*Ewch amdani! Gallwch ei wneud ar eich cyflymder eich hun, yn eich cartref eich hun lle nad oes pwysau! Unwaith y byddwch chi'n dod i'r brig, byddwch chi'n dechrau defnyddio'r Gymraeg [geirfa ac ymadroddion] rydych chi wedi'i ddysgu yn awtomatig. Mae cefnogaeth PACEY Cymru wedi bod yn wych, a bod wastad rhywun yno ar ddiwedd y ffôn i ateb unrhyw gwestiynau.*

If you'd like further information or would like to register for the Camau courses, please get in touch with PACEY Cymru on 02920 351407 or [paceycymru@pacey.org.uk](mailto:paceycymru@pacey.org.uk)

Os hoffech ragor o wybodaeth neu os hoffech gofrestru ar gyfer y cyrsiau Camau, cysylltwch â PACEY Cymru ar 02920 351407 neu [paceycymru@pacey.org.uk](mailto:paceycymru@pacey.org.uk)

